TGAU

3000N20-1A

A18-3000N20-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**
**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

DYDD GWENER, 9 TACHWEDD 2018 – BORE

2 awr


## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N201A
01

© WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

## DARN DARLLEN 1




# Pa mor bell o Gymru …?

## DARN DARLLEN 2

Ydych chi'n breuddwydio am deithio'r byd?


Amser yn broblem? Arian yn brin? Ddim yn hoffi hedfan?



Yna dyma'r ateb i chi!

# Gogls Rhithwir





Dringo'r Tŵr Eiffel



Cerdded Mur Mawr China



Ymweld â Thŷ Opera Sydney

Y byd i gyd yng nghledr eich llaw - heb symud cam o'ch cartref!

**Dim gwaith pacio**

**Dim gwaith trefnu**

**Dim amser o'r gwaith**

Cewch weld y cyfan â'ch llygaid eich hun gyda'r gogls rhithwir gorau ar y farchnad!

Gwisgwch eich gogls i grwydro'r byd yn grwn!

£39.99 yn unig

"Mae'r gogls rhithwir yma wedi newid fy mywyd. Mae arna' i ofn hedfan ond, gyda'r gogls, rydw i'n gallu teithio'r byd beth bynnag. Diolch."
Mrs S. Caradog,
Tre'r Castell

**DARN DARLLEN 3**

# Ar Wib!

# Cerbydau cyflyma'r byd


**Enw:** Francisco
**Cyflymder:** 67 milltir yr awr
**Manylion:** Adeiladwyd y llong yn Tasmania, Awstralia. Mae'n cael ei gyrru gan ddau dyrbin nwy ac mae'n 99 metr o hyd.





**Enw:** Bugatti Veyron
**Cyflymder:** 253 milltir yr awr
**Manylion:** Gall y car hwn deithio o 0 i 60 milltir yr awr mewn 2.4 eiliad ac mae ganddo injan 8 litr. Mae'n costio $1.5 miliwn.


**Enw:** Saturn V
**Cyflymder:** 25,000 milltir yr awr
**Manylion:** Y roced dalaf, drymaf a'r fwyaf pwerus erioed. Roedd yn teithio 33 gwaith cyflymder sain er mwyn gallu dianc rhag disgyrchiant y ddaear. Saturn V oedd y roced a lawnsiodd Apollo 11 a aeth ymlaen i lanio ar y lleuad yn 1969. Ar Apollo 11, roedd y dyn cyntaf i gerdded ar y lleuad, Neil Armstrong.





**Enw:** Maglev Shanghai
**Cyflymder:** 375 milltir yr awr
**Manylion:** Mae'r trên hwn yn arnofio dros lwybr gan ddefnyddio magnedau mawr i'w gadw ar lwybr o goiliau metel. Nid oes gan y trên injan.

**Enw:** X43
**Cyflymder:** 7,000 milltir yr awr
**Manylion:** Awyren ddibeilot sy'n cael ei lawnsio oddi ar awyren B-52 o 40,000 o droedfeddi yn yr awyr. Mae'n 3.7m o hyd ac mae corff yr awyren yn 'anadlu' yr aer a'i gymysgu gyda hydrogen er mwyn ei gyrru ymlaen.





**Trowch y dudalen.**

**DARN DARLLEN 4**


# Cymru a'r Byd

**Y cylchgrawn misol sy'n cysylltu Cymru â gweddill y byd** **Rhifyn Mehefin 2018** **£2.00**


## Ai Columbus oedd y Cyntaf?

Christopher Columbus oedd wedi darganfod cyfandir America yn 1492. Chwilio am lwybr gorllewinol i gyrraedd Asia roedd Columbus ar y pryd a hynny ar ran brenin Castile, sef Sbaen heddiw. Ar ei daith daeth ar draws America ac arweiniodd hyn at Ewropeaid yn goresgyn a choloneiddio'r cyfandir. Dyma'r hyn sydd yn y llyfrau hanes, beth bynnag.

Ond mae chwedl yng Nghymru yn honni bod dau frawd, Madog a Rhirid, wedi achub y blaen arno. Dau o un ar hugain o blant Owain Gwynedd, brenin Gwynedd, oedd Madog a Rhirid ac roeddent wedi blino ar yr ymladd parhaus yn eu mamwlad yn y ddeuddegfed ganrif. O ganlyniad i hyn, hwyliodd y ddau ymaith yn eu llong, Gwenan Gorn. Wedi iddynt ddarganfod tir yn y gorllewin, daethant yn ôl i Gymru i gasglu pobl oedd yn awyddus i ymsefydlu yn y wlad newydd, cyn hwylio ymaith unwaith eto. Digwyddodd hyn, yn ôl y chwedl, yn 1170 a hynny dros dri chan mlynedd cyn anturiaethau Columbus.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd y Frenhines Elisabeth I o Loegr yn awyddus i hawlio De America fel eiddo i Goron Lloegr. Roedd un o'i chynghorwyr, John Dee, o dras Gymreig a rhoddodd ef bapurau at ei gilydd yn seiliedig ar chwedl Madog yn darganfod America. Byddai hyn yn creu digon o gysylltiad i alluogi Elisabeth i wireddu ei dymuniad.

Yn ddiweddarach dechreuodd straeon ledu am lwyth y Mandan yng Ngogledd America, yn honni eu bod yn siarad iaith debyg iawn i'r Gymraeg. Yn wahanol i Indiaid eraill, roeddent yn byw mewn trefi yn cynnwys adeiladau ac roedd eu gwallt yn mynd yn wyn yn eu henaint; nid oedd hyn yn arferol i lwythi'r Indiaid. Roeddent yn pysgota mewn cwrwgl tebyg i'r rhai oedd yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn hytrach na chanŵ a fyddai'n arferol i Indiaid. Yn ogystal, cafodd pedwar sgerbwd yn gwisgo arfwisgoedd pres ac arnynt arfbais Gymreig eu darganfod.

Felly faint o wirionedd sydd i'r chwedl hon? Wedi'r cyfan mae'r chwedl yn gyfuniad o ffuglen a ffaith. Y gred yw i Madog gael ei eni yng Nghastell Dolwyddelan yng Ngwynedd yn fab i Owain Gwynedd a Gwladys Ferch Llywarch. Roedd Madog yn ddyn heddychlon a dihangodd o Gymru i osgoi'r brwydro rhwng meibion Owain Gwynedd yn dilyn ei farwolaeth. Dywedir iddo farw ar gyfandir America a'i fod wedi ei gladdu yn yr ardal sy'n cael ei hadnabod heddiw fel Louisiana.

Mae rhai, ar y llaw arall, yn amau a oedd y fath berson â Madog yn bod mewn gwirionedd. Roedd gan Owain Gwynedd gryn nifer o feibion ond nid oes unrhyw gofnod o'r cyfnod fod ganddo fab o'r enw Madog. Fodd bynnag, mae cerdd gan Maredudd ap Rhys (rhwng 1450 ac 1483) yn nodi bod Madog yn un o feibion Owain Gwynedd. Mae'r gerdd yn sôn am Madog yn cefnu ar ei gyfoeth a mynd i hwylio. Mae nifer o'r chwedlau Celtaidd yn sôn am arwr yn hwylio ar fordeithiau.

Mae tystiolaeth ddiddorol yn deillio o olion adeiladau yn ardal Alabama, lle maen nhw'n dweud y glaniodd Madog. Mae'r adeiladau yn dilyn cynllun Castell Dolwyddelan ac yn perthyn i gyfnod dri chan mlynedd cyn i Columbus ddarganfod America. Roedd llwyth lleol y Cherokee yn dweud mai "dynion gwyn" oedd wedi codi'r adeiladau.

Mae'n ddiddorol ystyried faint o wirionedd sydd i stori Madog ac ai chwedl ynteu hanes yw'r cyfan mewn gwirionedd. Byddai'n sicr yn rhan allweddol o hanes America pe bai'r cyfan yn cael ei brofi'n wir. Gyda Chymdeithas y Gymraeg yng Ngogledd America yn arddel yr enw 'Cymdeithas Madog', mae'n awgrymu bod digon o wirionedd yn sail i'r chwedl.



*Darlun o'r Mandan gan yr arlunydd George Catlin*



*Madog ar y chwith a chartrefi'r Mandan ar y dde*



**DARN DARLLEN 5**

# Elon Musk - Bywgraffiad



**Enw:** Elon Reeve Musk

**Geni:** 28 Mehefin 1971, Pretoria, De Affrica

**Gwaith:** *Fforiwr, Peiriannydd, Dyfeisiwr

**fforiwr – un sy'n teithio i leoedd er mwyn darganfod pethau*

**Pwy yw Elon Musk?**
Ganed yr entrepreneur yn Ne Affrica ond erbyn hyn mae'n ddinesydd Americanaidd. Dyn busnes yw ef a sefydlodd gwmni PayPal. Bu'r cwmni hwn yn allweddol yn y datblygiadau technolegol a arweiniodd at bobl yn gallu talu am nwyddau ar-lein. Gwerthodd Elon Musk y cwmni hwn a sefydlu SpaceX yn 2002 a Tesla Motors yn 2003. Mae'r ddau gwmni yn amlygu'r hyn sy'n bwysig iddo; y ceir trydan yn ddull o warchod yr amgylchedd a SpaceX yn profi ei awydd i greu'r wennol ofod fasnachol gyntaf i fynd i'r gofod. Gwerth cyfoeth Elon Musk yw $19.1 biliwn.

**Teulu a Bywyd Cynnar**
Mae tad Elon Musk yn dod o Dde Affrica a'i fam yn dod o Ganada. Mae ganddo un brawd ac un chwaer. Dangosodd ddiddordeb mewn cyfrifiaduron o oedran cynnar iawn a datblygodd gêm gyfrifiadurol a'i gwerthu pan oedd yn 12 oed.

**Addysg**
Symudodd Elon Musk i Ganada pan oedd yn 17 oed er mwyn osgoi gwasanaeth gorfodol ym myddin De Affrica ac astudiodd ym Mhrifysgol Queen's. Symudodd i Pennsylvania, America yn 1992 i astudio yn y brifysgol yno.

**Tesla**
Elon Musk yw perchennog cwmni Tesla Motors. Pwrpas y cwmni hwn yw datblygu ceir trydan fforddiadwy. Mae gwarchod yr amgylchedd yn bwysig iawn iddo. Bu'n ymgynghorydd ar yr amgylchedd i'r Arlywydd Trump ar un adeg.

**SpaceX**
Sefydlwyd y cwmni hwn yn 2002 gyda'r bwriad o ddatblygu cerbyd masnachol a fyddai'n gallu cario pobl gyffredin i'r gofod. Erbyn 2008, roedd y cwmni wedi datblygu ac enillodd gontract gyda NASA i gario nwyddau i'r Orsaf Ofod Ryngwladol, y cwmni preifat cyntaf i wneud hynny. Mae'r cwmni erbyn hyn yn datblygu'r 'Big Falcon Rocket' gyda'r gobaith o allu cario 100 o bobl ar y tro i'r blaned Mawrth. Breuddwyd Elon Musk yw creu cymdeithas newydd ar blaned Mawrth rhyw ddydd.

**Dyfeisiadau Eraill**
**Hyperloop**
System fyddai'n galluogi pobl i deithio dros 700 milltir yr awr mewn podiau sy'n teithio drwy dwneli rhwng dinasoedd America.
**'The Boring Company'**
Cwmni fydd yn datblygu ffyrdd tanddaearol i leihau problemau traffig.





